**Cyngor Dinas Caerdydd**
**CAIS I OSOD SGIP AR Y BRIFFORDD**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**
**This document is available in English**

## CYFFREDINOL

Tybir bod "y Cyngor" neu "Cyngor" yn cyfeirio at Gyngor Dinas Caerdydd/Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, ei ragflaenwyr, ei olynwyr neu asiantau ag awdurdod priodol.

Mae unrhyw gyfeiriad at Ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol, rheoliad neu offeryn statudol yn cynnwys cyfeiriad at y Ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol, rheoliad neu offeryn statudol dan sylw fel y'i diwygiwyd, estynnwyd neu ail-ddeddfwyd.

Rhaid cyflwyno cais drwy ddilyn y dull a bennir gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid y broses ymgeisio unrhyw bryd pe byddai'r angen yn codi.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais pan ystyrir nad yw cais wedi bodloni'r amodau sy'n orfodol.

Efallai y gofynnir i chi ar unrhyw bryd gyflwyno dogfennau neu dystiolaeth ychwanegol i ategu'ch cais.

## Telerau ac Amodau

1. Rhaid nodi enw'r perchennog a rhif 24 awr yn glir ar bob sgip.

2. Caiff pob sgip ei adael ar y lôn gerbydau/y llain ymyl y tu allan neu gerllaw'r lleoliad yn y cais, ac fe gaiff lleiniau ymyl ac wynebau ffordd eu hamddiffyn yn ddigonol ac fe gaiff ei osod fel bod yr ochr letaf yn gyfochrog ag ymyl y lôn gerbydau, a'i osod mor agos â phosibl at ymyl y lôn gerbydau ag sy'n rhesymol ymarferol. Sicrheir serch hynny na fydd yn amharu ar ddraeniau dŵr wyneb y briffordd nac ar unrhyw dyllau archwilio na chyfarpar unrhyw un o ymgymerwyr statudol Cyngor Caerdydd.

3. Caiff sgipiau eu gosod fel nad ydynt yn rhwystro'r ffordd i mewn i unrhyw safle heblaw bod caniatâd rhag blaen wedi cael ei roi.

4. Ni fydd unrhyw sgip yn hwy na 5 metr nac yn lletach na 2 fetr.

5. Bydd pob sgip a roddir ar y briffordd yn cydymffurfio â'r gofynion canlynol; Bydd deupen pob sgip yn cael eu peintio'n felyn a chaiff marciau coch fflwroleuol a melyn adlewyrchol eu rhoi arnynt ger ymyl allanol pob pen o'r cynhwysydd, yn unol â Rheoliadau Sgipiau Adeiladwyr (Marciau) 1984 (SS1 1984/Rhif 1933) a manylebau BS AU 152. Caiff y marciau eu cadw'n lân ar bob adeg ac ni chânt eu cuddio gan darpolin nac unrhyw ddeunyddiau eraill.

    a) Pan fo sgip yn cael ei osod ar y lôn gerbydau, rhaid gosod o leiaf 3 chôn traffig ar y lôn gerbydau mewn llinell letraws ar ochr y sgip sy'n wynebu'r traffig.
    b) Gyda'r nos (yn dechrau hanner awr cyn i'r haul fachlud tan hanner awr ôl iddi wawrio)
    c) Caiff lampau batri melyn eu gosod yn erbyn y sgip neu eu cysylltu â phob cornel o'r sgip.
    d) Pan fo sgip yn cael ei osod ar lôn gerbydau, caiff lampau eu gosod yn unol â'r disgrifiad yn 5c uchod, ac fe gânt eu gosod hefyd rhwng y conau y cyfeirir atynt yn 5b uchod. Bydd pŵer goleuol pob lamp yn cyfateb i o leiaf un candela, a bydd ynghynn drwy gydol y nos.

e) Caiff sgipiau a leolir yng Nghanol y Ddinas eu gosod ar ffrâm bren i atal difrod i'r llwybr cerdded neu'r lôn gerbydau.

6. Ni fydd unrhyw sgip, pan fo'n sefyll yn y briffordd, yn cynnwys unrhyw ddeunydd fflamadwy, ffrwydrol, gwenwynig neu beryglus, na deunydd sy'n debygol o bydru, sy'n niwsans i ddefnyddwyr y briffordd, nac sy'n debygol o fod yn niwsans.

7. Bydd sgipiau wedi eu gorchuddio ar bob adeg i atal y cynnwys rhag cwympo i'r briffordd gymaint â phosibl, a llwch rhag dianc, heblaw eu bod yn cael eu llenwi neu eu cludo ymaith.

8. Ni fydd y dull o lenwi pob sgip yn amharu ar gerddwyr na cherbydau traffig, yn peri niwsans iddyn nhw, nac yn eu peryglu.

9. Pan ddefnyddir sgydiau i lenwi sgip, dylai'r sgip fod yn gwbl gaeedig lle caiff ei wagio i atal malurion a llwch rhag dianc.

10. Dylid cludo'r sgipiau ymaith i'w gwagio cyn gynted ag y bydd yn ymarferol, ac o fewn 2 ddiwrnod ar ôl iddynt gael eu llenwi ym mhob achos.

11. Ni fydd unrhyw sgip yn aros ar y briffordd ar sail y caniatâd hwn ar ôl i'r drwydded ddod i ben.

12. Rhaid gwneud ceisiadau o leiaf un diwrnod gwaith cyn y diwrnod a nodwyd yn y cais fel dyddiad dechrau'r drwydded.

13. Ad-daliadau:

(a) Os gwneir cais cyn dyddiad dechrau'r drwydded rhoddir ad-daliad am y swm priodol
(b) Os gwneir cais ar ôl dyddiad dechrau'r drwydded ni roddir ad-daliad
(c) Gallai unrhyw gais am ad-daliad y tu allan i a a b o'r paragraff hwn gael ei ystyried ar ddisgresiwn y Cyngor
(d) Ar ôl derbyn taliad penderfyniad y Cyngor, dan unrhyw amgylchiadau, fydd awdurdodi ad-daliad.
(e) Caiff unrhyw arian a ad-delir ei ddychwelyd yn y modd a ddewisir gan y Cyngor

14. Ni ellir gosod unrhyw sgip ar lôn gefn neu lôn fysus oni fydd Cyngor Caerdydd wedi cytuno i hynny ymlaen llaw. Os rhoddir caniatâd, bydd y gwasanaeth casglu'n digwydd yr un diwrnod yn unol â'r oriau y mae Cyngor Caerdydd yn eu nodi. Ni chaiff sgip aros ar lôn gefn dros nos oni bai bod Cyngor Caerdydd wedi cytuno i hynny oherwydd amgylchiadau arbennig.

15. Ceir gwared ar yr holl ddeunydd sy'n cael ei roi mewn sgip yn y modd cywir. Ar ôl i'r sgip gael ei gludo ymaith, bydd y briffordd mewn cyflwr glân a thaclus.

16. Ni chaiff trwydded ei hadnewyddu'n awtomatig a bydd y Cyngor yn prosesu cais newydd o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl iddo ddod i law.

17. Os bydd sgipiau'n cael eu gosod mewn ardal parcio Talu ac Aros, bydd yn rhaid i ddeiliad trwydded y sgip dalu'r pris parcio dyddiol dros gyfnod y drwydded yn ogystal â chost y drwydded ei hun.

18. Os na fydd y masnachwr, y cwmni neu'r bartneriaeth yn masnachu mwyach, daw'r cytundeb hwn i ben a chaiff ei dynnu'n ôl. Bydd yn rhaid i unrhyw fasnachwr newydd ailgofrestru cyn derbyn caniatâd i osod sgipiau ar y briffordd.

## Indemniad Cyfreithiol

1. Bydd Deiliad y Drwydded yn indemnio Cyngor Caerdydd a/neu ei wasanaethwyr ac asiantau rhag unrhyw atebolrwydd, rhag unrhyw hawliadau, galwadau, camau gweithredu, costau a difrodau sy'n deillio trwy neu o ganlyniad i adael sgipiau ar y briffordd, y droedffordd, neu lain laswellt. Bydd cyfnod yr indemniad yn dechrau'r un pryd ag y gosodir y sgip hyd nes y'i cludir ymaith yn barhaol. Y swm a yswirir gan y polisi bydd £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr cyfrifol. Pryd bynnag y bydd gofyn, bydd Deiliad y Drwydded yn dangos i'r awdurdod y polisi neu bolisïau yswiriant a'r derbynebau ar gyfer talu'r polisi cyfredol.

## Cosbau am ddiffyg cydymffurfio

1. Os bydd unrhyw ddifrod i'r briffordd, bydd y Cyngor yn adfer yr holl gostau am atgyweiriadau gan Ddeiliad y Drwydded.

2. Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn ac â deddfwriaeth sy'n berthnasol ym mhob achos, efallai y byddwch yn agored i gamau gorfodi gan gynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig:

**Rhan IX o Ddeddf Priffyrdd 1980 – rhwystro priffordd**

Adran 137 (Cosb am rwystro bwriadol) Cosb Benodedig o £100

Adran 137A Pŵer i orchymyn y troseddwr i symud y rhwystr

Adran 139 Rheoli Sgipiau Adeiladwyr (Troseddu dan yr adran hon) Cosb Benodedig o £100

Adran 140 Symud Sgipiau Adeiladwyr (Pŵer i symud ac adennill costau)

Adran 149 Symud pethau sy'n cael eu gadael ar Briffyrdd ac sy'n peri niwsans ac ati. (Pŵer i symud ac adennill costau).

**Adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 – dyletswydd gofal**

Bydd yn ddyletswydd ar unrhyw berson sy'n mewnforio, cynhyrchu, cario, cadw, trin neu'n gwaredu gwastraff a reolir neu, fel brocer, sydd â rheolaeth ar wastraff o'r fath, i roi pob mesur ar waith sy'n berthnasol iddo yn rhinwedd y rôl honno ac sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau.

Hysbysiadau Cosb Benodedig o £300 am rai troseddau dan adran 34**;** methu â chydymffurfio â dyletswydd i gyflwyno dogfennau i'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir ar unrhyw adeg dan adran 34(5).

**Adran 5 o Ddeddf Rheoli Llygredd (Addasiad) 1989 –** awdurdod i Gludo Gwastraff a Reolir.

Hysbysiadau cosb benodedig o £300 am fethu â chyflwyno eich Cynwysyddion Gwastraff i gludo gwastraff. .

## The City of Cardiff Council
### APPLICATION TO PLACE A SKIP ON THE HIGHWAY

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**
**This document is available in Welsh**

## GENERAL

Any reference to "the Council" or "Council" is to be taken to mean the City of Cardiff Council/The County Council of the City and County of Cardiff, its predecessors or replacements or duly authorised agents

Any reference to an Act of Parliament, statutory provision, regulation or statutory instrument includes a reference to that Act of Parliament, statutory provision, regulation or statutory instrument as amended, extended or re-enacted

All applications must be made in the manner determined by the Council. The Council reserves the right to alter the application process at any time should the need arise

The Council reserves the right to deny any application when it is not satisfied that the conditions to which an application must be made have been fulfilled

You may be asked at any time to provide additional documents or evidence in support of an application

## Terms and Conditions

1. Each skip must be clearly marked with the owner's name and 24-hour telephone number
.
2. Each skip will be deposited on the carriageway/verge outside or adjacent to the location applied for, with adequate protection provided to verges and road surfaces and shall be positioned so that it's longer sides are parallel to the edge of the carriageway and as near to the edge of the carriageway as is reasonably practicable but ensuring it does not impede the surface water drainage of the highway nor obstruct access to any manhole or any apparatus of any statutory undertaker of Cardiff Council.

3. Skips shall be positioned not to obstruct access to any premises unless prior approval has been obtained.

4. Each skip shall not exceed 5 metres in length and by 2 metres in width.

5. Each skip placed on the highway shall comply with the following requirements; The ends of each skip shall be painted yellow and marked with vertical red fluorescent and yellow reflective markings adjacent to the outer edge of each end of the container in accordance with The Builders Skips (Markings) Regulations 1984 (SS1 1984/No 1933) and specifications BS AU 152. The markings shall be kept clean at all times and not obstructed by tarpaulins or any forms of sheeting.

   a) When a skip is placed on the carriageway it shall be guarded by at least 3 traffic cones placed on the carriageway in an oblique line on the approach side of the skip.
   b) At night (that is to say, between half-an-hour before sunset and half-an-hour after sunrise)
   c) A yellow battery operated lamp shall be placed against or attached to each corner of the skip.
   d) When a skip is placed in a carriageway lamps shall be placed as in 5c above and shall also be placed between each of the cones referred to in paragraph 5b) above. Each lamp shall have an illuminative power of not less than one candela and shall

remain lit throughout the night.

e) Skips deposited in the City Centre shall be placed on a timber frame to protect the footpath or carriageway from damage.

6. No skip when standing in the highway shall contain any flammable, explosive, noxious or dangerous material which is likely to putrefy and which otherwise is, or likely to become, a nuisance to users of the highway.

7. Skips shall be covered at all times to minimise contents falling on the highway and dust escaping unless they are being filled or removed.

8. The method used for filling of each skip shall not impede or cause a nuisance or danger to pedestrians and vehicular traffic.

9. Where rubbish chutes are used to fill a skip, the skip should be completely enclosed at the discharge end to prevent any escape of debris or dust.

10. Skips shall be removed for emptying as soon as practical as and in any case no later than 2 working days after it has been filled.

11. No skip shall remain on the highway pursuant to this permission after the permit has expired

12. Applications must be made a minimum of one working day before the day that the permit that has been applied for is proposed to start

13. Refunds:

a) If a request is made <u>before</u> the start date of the permit then a refund for the appropriate amount may be issued
b) If a request is received <u>after</u> the start date of the permit then a refund will not be issued
c) Any request for a refund outside of a & b of this paragraph may be considered at the sole discretion of the Council
d) Once payment is received it is the sole discretion of the Council, under any circumstance, whether a refund will be authorised
e) Any refunded monies will be returned in the manner chosen by the Council

14 No Skip shall be deposited in any rear lane or Bus Lane without prior agreement from Cardiff Council. If permission is granted it will be for same day collection for hours specified by the Cardiff Council. No skip will be allowed to remain in a rear lane overnight unless agreed due to special circumstances by Cardiff Council

15 All materials placed in a skip shall be properly disposed of and the highway shall be left in a clean and tidy condition after removal

16 Renewal of a licence is not automatic and three working days should be allowed from receipt for the Council to process a further application

17 Skips placed in a Pay and Stay parking area will require the skip trader to bear the costs of the daily parking charge for the duration of the skip licence in addition to the Licence fee

18 Upon the trader, company or partnership no longer trading this agreement will cease to have effect and be withdrawn. Any new trader will have to re-register before consent to place skips on the highway will be granted.

## Legal Indemnity

1. The License Holder shall indemnify, and keep indemnified, Cardiff Council and/or its servants and agents against any liability, from all claims, demands, actions, costs and damages arising out of by or in consequence of the depositing of skips on the carriageway, footway, or grass verge. The period of indemnity is to run from the commencement of the deposition until the final removal of the skips. The sum covered by the policy to be £5,000,000 for any one event with a reputable insurer. Whenever required the Licensee shall produce to the Authority the policy, or policies of insurance and the receipts for payment of the current policy

## Penalties for Non-Observance

1. Any damage to the highway will result in the full costs of a repair being recoverable by the Council from the License Holder.

2. If you fail to comply to these Terms & Conditions and all relevant legislation you may be liable to enforcement action which includes the imposition of a Fixed Penalty Notice**:**

**Part IX of the Highways Act 1980 for obstruction of a highway**

Section 137 (Penalty for willful obstruction) £100 Fixed Penalty

Section 137ZA Power to order offender to remove obstruction

Section 139 Control of Builders' Skips (Committing an Offence under this section) £100 Fixed Penalty

Section 140 Removal of Builders' Skips (Power for removal and recovery of costs )

Section 149 Removal of things so deposited on Highways as to be a nuisance etc. (Power for removal and recovery of costs )

**Section 34 of the Environmental protection act 1990 for duty of care**

It shall be the duty of any person who imports, produces, carries, keeps, treats or disposes of controlled waste or, as a broker, has control of such waste, to take all such measures applicable to him in that capacity as are reasonable in the circumstances

£300 Fixed penalty notices for certain offences under section 34**;** failure to comply with a duty to furnish documents to that authority imposed under regulations made at any time under section 34(5)

**Section 5 of the Control of Pollution (Amendment) Act 1989)** for authority to Transport Controlled Waste.

£300 Fixed penalty notices for failure to produce your Waste Carriers required for the transportation of waste. .

**Cyngor Dinas Caerdydd**
**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**
**This document is available in English**

Mae angen eich data personol ar Gyngor Dinas Caerdydd i gyflawni ein tasgau cyfreithiol a rheoleiddiol fel Awdurdod Lleol, ac i gyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd sy'n ofynnol o dan y gyfraith.

Rydym yn edrych ar ôl eich data mewn ffordd gyfrifol ac mae ein polisïau a'n systemau wedi'u cynllunio i ddiogelu eich preifatrwydd.

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni. Bwriad yr hysbysiad hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data sydd gennym amdanoch, sut y byddwn yn ei ddefnyddio, eich hawliau ynghlwm ag ef a'r mesurau diogelwch sydd ar waith i'w ddiogelu.

## 1. Pa ddata personol sydd gennym a sut rydyn ni'n ei gael

Rydym yn cael data personol yr ydych wedi ei roi i ni mewn unrhyw ffordd, fel rhan o gais am drwydded ffyrdd. Mae'r math o ddata personol yr ydym yn ei brosesu yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- *Gwybodaeth am wasanaethau rydych wedi gofyn i ni eu rhoi.*
- *Manylion cyswllt (Enw, cyfeiriad post ac/neu e-bost, rhif ffôn ac ati)*
- *Manylion y cwmni*
- *Dogfennau yswiriant*
- *Gwybodaeth am drwyddedu*
- *Manylion am aelodaeth o sefydliadau penodol ac ati*
- *Gwybodaeth ar ffurf llun yn ymwneud â thrwydded*
- *Manylion am geisiadau blaenorol gennych am drwyddedau priffyrdd*
- *Unrhyw gyfathrebu a fu rhyngom o bosib*

## 2. Sut byddwn yn defnyddio'ch data personol

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i'n cynorthwyo i barhau i gyflawni ein tasgau cyfreithiol a rheoleiddiol fel Awdurdod Lleol ac i gyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Gall hyn gynnwys prosesu data personol;

- *Asesu cymhwysedd am drwydded*
- *Cysylltu â chwsmer ynglŷn â'i drwydded*
- *Cysylltu â chwsmer ynglŷn â gwybodaeth bwysig am newidiadau i drwydded e.e. newidiadau i'r polisi neu bris*
- *At ddibenion ystadegol*
- *Monitro diogelwch ein systemau*
- *Cydymffurfio â'n hoblygiadau cyfreithiol fel awdurdod trwyddedu*
- *At ddibenion gorfodi os oes gan y Cyngor sail resymol i gredu bod trosedd o bosib wedi'i chyflawni, neu yn cael ei chyflawni, neu fod telerau ac amodau unrhyw drwydded priffyrdd wedi'u torri.*

## 3. Pa mor hir rydym yn cadw eich data?

Rydym yn cadw'ch data cyhyd â bod ei angen ef yn unig. Bydd y cyfnod hwn yn amrywio yn ôl y rhesymau dros brosesu neu ddal y data. Mae'n bosib y bydd angen i ni gadw cofnodion am gyfnod hir i fodloni gofynion ac ymrwymiadau cyfreithiol (e.e., ond nid yn gyfyngedig i, ddibenion gorfodi pan yr amheuir bod trosedd wedi'i chyflawni).

Rydym yn adolygu'r wybodaeth a ddelir gennym yn gyson. Pan nad oes angen i ni ei ddal bellach, byddwn yn ei ddileu'n ddiogel.

## 4. Eich Hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych lawer o hawliau o ran eich data personol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hawl mynediad
- Hawl i gywiro
- Hawl i ddileu
- Hawl i dynnu cydsyniad yn ei ôl

## 5. Sefydliadau y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â nhw o bosib

Mae'n bosib y byddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch ar gyfer atal a/neu ddarganfod troseddau gyda Heddlu De Cymru neu unrhyw gorff perthnasol a ganiateir o dan ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol.

Mae'n bosib y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau allanol y mae'r Cyngor yn gofyn arnynt i'n cynorthwyo i gyflawni ein dyletswyddau a'n tasgau cyhoeddus, ond dim ond pan fyddai ein perfformiad yn cael ei gyfaddawdu drwy beidio â gwneud hynny. Byddwn yn gwirio unrhyw gorff allanol yn drylwyr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gyfredol bob amser.

## 6. Diweddariadau Polisi Preifatrwydd

Bydd ein polisi preifatrwydd yn parhau i ddatblygu er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol, yr arfer gorau diweddaraf a nodiadau arweiniad o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a mannau eraill. Os ydym yn penderfynu newid y polisi preifatrwydd hwn, gallwn ni wneud hynny ar unrhyw bryd.

## 7. Cysylltu â ni / Swyddog Diogelu Data

Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar unrhyw adeg drwy ysgrifennu at:

Y Swyddog Diogelu Data
Tîm Llywodraethiant Gwybodaeth
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Neu drwy e-bostio:

diogeludata@caerdydd.gov.uk

Gallwch fynd i www.caerdydd.gov.uk am ragor o wybodaeth.

Mae'r hawl gennych i wrthod rhoi eich cydsyniad i brosesu'r wybodaeth drwy hysbysu'r Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cydsynio, neu'n ei dynnu yn ôl, mae'n bosib na fydd y Cyngor yn gallu prosesu'r wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau ar ei sail.

**The City of Cardiff Council**
**PRIVACY NOTICE**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**
**This document is available in Welsh**

The City of Cardiff Council requires your personal data to perform our legal and regulatory tasks as a Local Authority and to perform a specific task in the public interest that is set out by law.

We take our responsibilities to look after your data very seriously and our policies and systems are designed to protect your privacy. Your privacy is very important to us so this notice is therefore designed to give you information about the data we hold about you, how we use it, your rights in relation to it and the safeguards that are in place to protect it.

## 8. What personal data we hold and how we obtain it

We obtain personal data that you have provided to us by any means as part of an application for a highways licence. The types of personal data we process can include, but is not limited to;

- *Information about the services you have asked us to provide*
- *Contact details (Name, postal and/or email address, telephone number etc.)*
- *Company details*
- *Insurance documents*
- *Licencing information*
- *Details on memberships to certain organisations etc.*
- *Photographic information pertaining to a licence*
- *Details on previous applications made by you for highways licences*
- *Any miscellaneous communications we may have had with you*

## 9. How we will use your personal data

We will use your information to aid us in continuing to perform our legal and regulatory tasks as a Local Authority and to perform a specific task in the public interest that is set out by law**.** This can include the processing of your personal data;

- *To assess eligibility for a licence*
- *To contact a customer regarding their licence*
- *To contact a customer regarding important information about licencing changes e.g. policy changes or price changes*
- *For statistical purposes*
- *To monitor the security of our systems*
- *To comply with our legal obligations as the licencing authority*
- *For enforcement purposes where the Council has reasonable grounds to believe that an offence may have been or may be being committed, or that the terms and conditions for any highways licence may have been contravened.*

## 10. How long we keep your data for

We keep your data only for as long as we need it. This period will vary according to why we are processing or holding the data. We may need to keep records for a long time to fulfil legal requirements and obligations (for example, but not limited to, for enforcement purposes when it is suspected that an offence has been committed).

We actively review any information we hold. When there is no longer a need for us to hold it, we will securely delete it.

**11. Your Rights**

As a data subject, you have many rights regarding your personal data. This includes;

- Right of access
- Right to rectification
- Right to erasure
- Right to the withdrawal of consent
- Right to data portability
- Right to restrict processing
- Right to object
- Rights in relation to automated decision making and profiling.

**12. Organisations we may share your information with**

We may share your information for the prevention and/or detection of crime with South Wales Police or any other relevant body as permitted by current data protection legislation.

We may also share your information with external organisations that the Council require to aid us to carry out the performance of our public tasks and duties, but only when the performance of our public tasks and duties may be compromised by not doing so. Any external organisations will be thoroughly vetted to ensure that they adhere to current data protection legislation at all times.

**13. Privacy policy updates**

Our privacy policy may change to reflect legal requirements, updated best practice, guidance notes from the Information Commissioner's Office and elsewhere. If we decide to change this privacy policy, we may do so at any time.

**14. Contacting us / Data Protection Officer**

You may contact the Data Protection Officer at any time by writing to:

The Data Protection Officer
Information Governance Team
County Hall
Atlantic Wharf
Cardiff
CF10 4UW

Or by emailing:

dataprotection@cardiff.gov.uk

You may also like to visit www.cardiff.gov.uk for further information.

You have the right to withdraw your consent to the processing of the information by notifying the Data Protection Officer in writing. However, if you do not give consent, or subsequently withdraw it, the Council may not be able to process the relevant information to make decisions based on it.